



# YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ [pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk](mailto:pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk)

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



11.09.2020

## I SYLW: POB RHIANT

Annwyl Rieni,

Ymddiheuriadau am anfon llythyr arall i'ch sylw, ond hoffwn dynnu eich sylw at y materion isod:

**Mynychu'r ysgol / Symptomau Covid-19:** I sicrhau parhad yn nysgu ac addysg eich plentyn; ac i sicrhau diogelwch pob disgybl ac aelod staff; mae'n bwysig eich bod yn gallu gwahaniaethu rhwng symptomau Covid-19 ac annwyd. Dyma brif symptomau Covid-19:

- tymheredd uchel – bydd y frest neu'r cefn yn teimlo'n boeth i'w gyffwrdd
- peswch newydd, parhaus: mae hyn yn golygu pesychu llawer am fwy nag awr, neu 3 neu fwy o byliau peswch mewn 24 awr
- methu arogl neu flasau neu golli synnwyr o arogl neu flas: methu arogl na blasu unrhyw beth, neu fod pethau'n arogl neu'n blasu'n wahanol i'r arfer.

Os nad yw'ch plentyn yn arddangos y symptomau, mae'n debygol iawn mai annwyd sydd gan eich plentyn. Os ydych yn tybio fod eich plentyn yn dangos un o symptomau Covid-19, gallwch drefnu prawf ar-lein: <https://llyw.cymru/gwneud-cais-i-gael-prawf-coronafeirws-covid-19>, neu drwy ffonio 119. Mae canllawiau ynglŷn â'r angen i hunanyysu i'w gael [ar-lein](#).

**Cinio Ysgol:** Bydd cinio ysgol yn cael ei ddarparu o ddydd Llun 14/9 ymlaen. Mae'r pris yn parhau i fod yn £2.50 y dydd. Gallwch ddewis a dethol pa ddiwrnod y dymunwch i'ch plentyn gael cinio ysgol. Mae copi o'r fwydlen ar ein gwefan: <http://www.parcybont.co.uk/bwydlen.html>. Mae angen talu am ginio ysgol ar-lein ar School Gateway (oni bai eich bod yn gymwys i brydau ysgol am ddim). Rhieni Meithrin - os yw eich plentyn yn aros i'r Cylch Meithrin yn y prynhawniau, gadewch i athrawes / staff y dosbarth wybod os yw eich plentyn angen cinio ysgol os gwelwch yn dda.

**Clwb Gofal Bore:** Mae'r Clwb Gofal Bore a Chlwb Brecwast yn ail-agor ddydd Llun 14/9. Mae ffi Clwb Gofal Bore (7.50 – 8.15yb) wedi codi i £1.10 y sesiwn (archebu a thalu drwy School Gateway). Bydd brecwast am ddim yn cael ei weini yn y Clwb Brecwast rhwng 8.15-8.30yb. Hoffwn eich atgoffa na fydd mynediad i'r Clwb Brecwast ar ôl 8.30yb.

**Darllen / Cofnodion darllen:** Rydym yn rhoi cryn bwylsais ar godi safonau darllen ar draws yr ysgol. Rydym yn gofyn i bob rhiant ddarllen gyda'u plentyn / eu hannog i ddarllen am o leiaf 10 munud bob nos a chofnodi yn eu Cofnod Darllen o leiaf unwaith yr wythnos. Mae cyflwyno'r babanod (Meithrin/Derbyn) i lyfrau yn bwysig; gall rieni wneud hyn drwy ddarllen stori bob nos gyda'u plentyn, trafod y lluniau, a gofyn cwestiynau am y stori/cymeriadau. Mae hyn yn cynnwys pob plentyn hyd at flwyddyn 6. Rydym yn gofyn am eich cydweithrediad i ofalu fod eich plentyn yn dod â bagiau darllen i'r ysgol **bob dydd (Bl.1-6)** a'r **dosbarth Derbyn unwaith yr wythnos**. Byddwn yn rhoi llyfrau o'r neilltu am 72 awr wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Bydd cyfnodau i ddarllen yn annibynnol ac fe fydd aelod o staff yn gwrandao ar eich plentyn yn darllen o leiaf unwaith yn ystod yr wythnos.

**Gwaith Cartref:** Eleni, bydd pob gwaith cartref yn cael ei osod ar-lein ar ein llwyfannau dysgu digidol: See-Saw yn y Cyfnod Sylfaen ac ar Google Classroom yn CA2. Bydd y Meithrin yn derbyn gwaith cartref yn achlysurol yn unig. Bydd Blwyddyn 3 yn parhau i ddefnyddio See-Saw am rŵan, ac fe fyddan nhw yn cael eu cyflwyno i Google Classroom yn ystod yr wythnosau nesaf.

**Dyddiadau:** Mae calendr yr ysgol yn cael ei ddiweddarau yn gyson ar ein gwefan, bydd dyddiadau pwysig yn cael eu rhannu drwy negeseuon / e-byst yn ogystal.

Diolch am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

***Iwan Wyn Taylor***

Pennaeth